

CYNLLUN GWEITHREDU RHYWOGAETH:

SPECIES ACTION PLAN:

# CORYSTLUMOD

*Pipistrellus pipistrellus* a *P. pipistrellus pygmaeus*

## Disgrifiad / Ecoleg

Corystlumod yw'r ystumod lleiaf, y rhai mwyaf niferus a'r rhai mwyaf eang eu dosbarthiad ym Mhrydain. Mae dwy rywogaeth: y corystlum cyffredin a'r corystlum Soprano.

Ystumod bach brown yw corystlumod ac maen nhw'n pwysu rhwng tri ac wyth gram. Mae lled eu hadenydd rhwng 18 a 24cm. Mae'r ddwy rywogaeth yn edrych yn debyg ond mae eu hecoleg a'u sonar yn wahanol.

Mae'r ddwy rywogaeth yn clwydo mewn cryn niferoedd. Gall fod mwy na mil o gorystumod soprano'n clwydo gyda'i gilydd mewn cwsgrfan feithrin. Mae gwrywod y ddwy rywogaeth yn byw ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau bychain. Mae corystlumod yn dibynnu ar adeiladau am eu cwsgrfannau yn yr Haf, a defnyddiant goed hefyd. Byddant yn gaeafu mewn waliau, bylchau mewn uniadau trawstiau (fel y rhai a geir mewn eglwysi a thai gwair), waliau dwbl ac mewn coed gweigion. Yn bur anaml y byddant yn gaeafu mewn safleoedd o dan y ddaear.

Ymhlith eu cynefinoedd bwydo mae ymylon coetiroedd, gwrychoedd, gerddi, parcdiroedd ac ar lan dŵr ac unrhyw le y mae amrywiaeth o bryfed bychain e.e. gwybed, mosgitos ac ati. Mae'n well gan y soprano gynefinoedd ar lan dŵr.

Mae'r corystlum *Nathusius* wedi ei gofnodi unwaith yng Ngheredigion. Mae ei anghenion ecolegol yn debyg corystlum soprano, ond nid yw'r cynllun hwn yn ymdrin ag ef.

## Dosbarthiad yng Ngheredigion

Mae'r ddwy rywogaeth wedi eu dosbarthu'n eang yng Ngheredigion. Mae natur wledig y sir a dwysedd isel tai'n golygu bod yr ystumod yn defnyddio cyfran uchel o'r adeiladau. Gallai hynny fod mor uchel â 90% mewn rhai mannau.

## Ffactorau sy'n effeithio ar y cynefin/rhywogaeth yng Ngheredigion

- Gallai adnewyddu ac addasu hen adeiladau, gan gynnwys ailbwyntio hen waliau, olygu na all gael mynediad at safleoedd gaeafu a pharu.
- Mewn adeiladau modern gallai selio waliau dwbl â deunydd inswleiddio a defnyddio plastig a sgriniau atal pryfed ar drimiadau adeiladau a dulliau inswleiddio eraill gau'r ystumod allan.
- Mae anoddefgarwch tuag at ystumod yn peri iddynt gael eu cau allan yn anghyfreithlon o dai a dinistrio eu cwsgrfannau meithrin yn anghyfreithlon.
- Mae anwybodaeth am anghenion ystumod yn golygu bod gwaith coedwigaeth a gwaith adeiladu anghydnaws yn effeithio arnynt.
- Mae'r cemegau a ddefnyddir i drin pren yn niweidiol i ystumod.
- Mae cynefinoedd yr ystumod yn dirywio ac yn cael eu dinistrio yn y wlad ehangach ac o'r herwydd maen nhw'n colli eu cwsgrfannau naturiol e.e. coed gweigion, holltiog, rhisgl toredig ac iorwg a mannau bwydo megis gwrychoedd cysgodol a chynefinoedd ar lan dŵr.



LLUm / Photo: Melvin Gray

# PIPISTRELLE BATS

*Pipistrellus pipistrellus* & *P. pipistrellus pygmaeus*

## Description / Ecology

Pipistrelles are the smallest, most abundant and most widely distributed of Britain's bats. There are two species: the common and the soprano pipistrelle.

Pipistrelles are small brown bats that weigh between three and eight grams and their o species look similar but their ecology and sonar differ.

Both species can roost in large numbers. Soprano pipistrelle nursery roosts may have over 1000 individuals. Males of both species are solitary or are found in small groups. Pipistrelle bats are heavily dependent on buildings for roosts but trees are also used. Hibernation occurs in walls, gaps in the joints of beams of churches and barns, cavity walls and in hollow trees and rarely in underground sites.

Favoured feeding habitats include woodland edges, hedgerows, gardens, parkland, the edges of water bodies and any location that provide a variety of small flies. The soprano may prefer watery habitats.

There is one record of *Nathusius*' pipistrelle bat in Ceredigion. It has similar ecological needs to the soprano pipistrelle bat, but is not dealt with in this plan.

## Distribution in Ceredigion

Both species are widely distributed in Ceredigion. The largely rural nature of the county and low housing density means that bats use a high proportion of buildings. In some areas this may be as high as 90%.

## Factors affecting the species in Ceredigion

- The renovation and conversion of old buildings, and the re-pointing of old walls, may result in the access to hibernation and mating sites being blocked.
- For modern buildings the sealing of cavity walls with insulation, the use of plastics and fly screens on building trims and other insulation measures may exclude bats.
- Intolerance of bats leads to the illegal exclusion of bats from houses and the illegal destruction of nursery roosts.

- Gall mesurau iechyd a diogelwch i gael gwared ar goed sydd wedi cael eu niweidio, coed y mae afiechyd arnynt neu goed sy'n ansefydlog wrth ymyl y ffyrdd, llwybrau troed ac adeiladau niweidio cynefinoedd yr ystumod.

### Beth sy'n cael ei wneud yn lleol?

- Mae grwpiau ystumod lleol yn monitro rhai cwsgfannau ac yn cynorthwyo aelwydydd sydd â chwestiynau am ystumod.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhoi cyngor ar y mannau y bydd gwaith datblygu yn effeithio ar ystumod
- Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal yn annog tîrfeiddiannwyr i blannu gwrychoedd a diogelu cynefinoedd hanner naturiol sy'n llawn pryfed.

### Targedau

- Cadarnhau statws a dosbarthiad ystumod o'r ddwy rywogaeth yng Ngheredigion.
- Diogelu'r cwsgfannau presennol rhag niwed drwy ddarparu data i gynllunwyr.
- Diogelu cwsgfannau anhysbys rhag niwed drwy roi cyfarwyddyd i gynllunwyr ynghylch pa safleoedd sy'n debygol o fod yn gwsgfannau ystumod.
- Diogelu coridorau bywyd gwyllt a nodweddion dŵr.
- Sicrhau bod digon o waith yn cael ei wneud i arolygu ystumod ar goed aeddfed cyn eu trin.

### Pa gymorth y gallwch ei roi

- Codi blwch ystumod, palu pwll dŵr a phlannu coed cynhenid yn eich gardd.
- Gwneud eich to yn addas ar gyfer ystumod a pheidio â gwneud newidiadau i'ch to heb wirio bod ystumod yno (gofynnwch i'ch grŵp ystumod lleol am gyngor)
- Ymuno â grŵp ystumod (gweler isod).
- Os oes ystumod gennych yn eich to, ymunwch â chynllun cyfrif Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystumod yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystumod.
- Cadw coed ar eich eiddo.
- Rhoi gwybod am leoliad cwsgfannau ystumod i'r cofnodydd mamaliaid lleol, sef Tom McOwat (tommo@ceredigion.gov.uk).

### Mwy o wybodaeth

- Gweler y tabl gweithredu ar gorystumod am fanylion y gweithredu lleol. Gofynnwch i'r Swyddog Bioamrywiaeth am fanylion
- Cynllun Gweithredu Corystumod y DU (ar gael ar [www.ukbap.org.uk](http://www.ukbap.org.uk)).
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk) neu, am ddadansoddiad o'r cynnydd a wneir tuag at y cynllun hwn, ymwelwch â thudalennau Ceredigion ar System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth [www.ukbap-reporting.org.uk](http://www.ukbap-reporting.org.uk)).
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA [biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk).
- Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystumod ([www.bats.org.uk](http://www.bats.org.uk)) Ffôn: 020 7627 2629.
- Grŵp Ystumod Gogledd Ceredigion Ffôn: 01970 871951.
- Grŵp Ystumod Dyffryn Teifi Margaret Clarke ([margaret@brynach.u-net.com](mailto:margaret@brynach.u-net.com)).
- Grŵp Ystumod Dyfed Tom McOwat ([myotis\\_1@hotmail.co.uk](mailto:myotis_1@hotmail.co.uk)).
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EE Ffôn: 01970 821100.

- Ignorance of the needs of bats results in bats being affected by unsympathetic building and forestry work.
- The chemicals and disturbance caused by remedial timber treatment is harmful to bats.
- The degradation and destruction of bat habitats in the countryside and the loss of natural roosting sites e.g. trees with hollows, splits, flaking bark and ivy and feeding areas such as sheltered hedges and waterside habitats.
- Health and safety measures to remove damaged, diseased or unstable trees from next to roads, footpaths and buildings can damage bat habitats.

### What is being done locally

- Local bat groups monitor some roosts and assist householders with bat enquires.
- CCW advise when bats will be affected by building work.
- Agri-environment schemes e.g. Tir Gofal encourage land owners to plant hedges and safeguard insect rich habitats.

### Targets

- Confirm the status and distribution of the two pipistrelle bat species in Ceredigion.
- Safeguard existing roosts by providing data to planners.
- Safeguard unknown roost sites from damage by providing guidance to planners on likely sites for bat roosts.
- Protect wildlife corridors and water features .
- Ensure that adequate bat survey work is undertaken on mature trees prior to surgery work taking place.

### What you can do to help

- Put up a bat box, dig a pond and plant native trees in your garden.
- Make your roof suitable for bats, and don't make alterations to your roof without checking for signs of bats (ask your local bat group for advice).
- Join a bat group (see below).
- If you have bats in your roof, join Bat Conservation Trust's National Bat Monitoring Programme counting scheme.
- Retain trees on your property.
- Report the location of bat roosts to the local mammal recorder-Tom McOwat (tommo@ceredigion.gov.uk).

### Further information

- See the pipistrelle bat action table for details of local action. Ask Biodiversity Officer for details.
- UK Pipistrelle bat Action Plan (on [www.ukbap.org.uk](http://www.ukbap.org.uk)).
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (on [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk) or, for details of progress towards this plan, visit the Ceredigion pages on the Biodiversity Action Reporting System [www.ukbap-reporting.org.uk](http://www.ukbap-reporting.org.uk)).
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA [biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk).
- Bat Conservation Trust ([www.bats.org.uk](http://www.bats.org.uk)) Tel.: 020 7627 2629.
- North Ceredigion bat group Tel.: 01970 871951.
- Teifi Valley Bat group Margaret Clarke ([margaret@brynach.u-net.com](mailto:margaret@brynach.u-net.com)).
- Dyfed Bat Group Tom McOwat ([myotis\\_1@hotmail.co.uk](mailto:myotis_1@hotmail.co.uk))
- CCW, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EE Tel.: 01970 821100.